**Diwygio’r Gyfraith ar Ymddiheuro mewn Achosion Sifil yng Nghymru a Lloegr**

**Crynodeb Gweithredol (Cymraeg) o Ymateb y Llywodraeth**

## Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori *Diwygio’r gyfraith ar ymddiheuro mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr* ar 8 Ebrill 2024. Roedd yn gwahodd sylwadau ar rôl ymddiheuriadau mewn achosion sifil yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol, ac a fyddai unrhyw ddarpariaethau amgen neu ychwanegol i egluro neu ddiwygio’r gyfraith bresennol (Deddf Iawndal 2005) yn ddefnyddiol.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 3 Mehefin 2024 ac mae’r crynodeb gweithredol hwn yn crynhoi’r ymatebion a sut mae’r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar ddatblygu ymhellach y polisi yr ymgynghorwyd arno.

## Crynodeb o’r ymatebion

Y farn gyffredinol ymhlith ymatebwyr yw y dylid gwneud mân newidiadau i’r ddeddfwriaeth bresennol i roi eglurder ar y defnydd o ymddiheuriadau mewn ymgyfreitha a chreu amgylchedd cyfreithiol sy’n annog ymddiheuriadau diffuant.

Credid fod hyn yn arbennig o fuddiol mewn achosion a oedd yn ymwneud â cham-drin plant, lle mae dilysu a gwella mor bwysig. Fodd bynnag, mae pryderon ynglŷn ag ymddiheuriadau nad ydynt yn ddiffuant wedi pwysleisio’r angen am ddrafftio gofalus i sicrhau nad yw unrhyw ddiwygiadau’n arwain yn anfwriadol ar ddatganiadau o ymddiheuriadau sy’n dilyn patrwm penodol heb empathi gwirioneddol.

Datgelodd y cwestiwn a ddylid diffinio ymddiheuriad mewn deddfwriaeth wahaniaethau barn ymhlith yr ymatebwyr. Roedd rhai o blaid diffiniad cyfreithiol clir i leihau ansicrwydd, gydag eraill yn ffafrio canllaw a oedd yn rhoi pwyslais ar ddiffuantrwydd a hyblygrwydd. Roedd y perygl o or-ddiffinio ymddiheuriadau’n cael ei weld fel cryn bryder, gan y gallai arwain at ddiffyg diffuantrwydd a mwy o ymgyfreitha.

Er bod model Deddf Ymddiheuriadau (Yr Alban) 2016 yn cael ei weld fel pwynt cyfeirio gwerthfawr, roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau y dylai deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr fod yn fwy uchelgeisiol, wedi’i theilwra i’w chyd-destun cyfreithiol penodol, ac yn cyd-fynd ag egwyddorion cyfiawnder adferol. Pwysleisiodd ymatebwyr y dylai’r angen i sicrhau na ellir defnyddio ymddiheuriadau fel tystiolaeth mewn achosion sifil gael ei gydnabod, yn ogystal â gofal rhag mesurau rhy ragnodol a allai danseilio diffuantrwydd ymddiheuriadau.

Roedd ymatebion yn awgrymu bod effeithiau posibl y ddeddfwriaeth yn bellgyrhaeddol. Ar yr ochr bositif, gallai egluro statws cyfreithiol ymddiheuriadau, gan arwain at  ddatrysiadau cyflymach a llai o ymgyfreitha. Fodd bynnag, roedd risgiau, yn enwedig i hawlwyr, pe bai ymddiheuriadau’n cael eu gweld fel rhai heb ddiffuantrwydd neu os na ellid eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achosion dilynol. I ddiffynyddion, yn enwedig mewn gofal iechyd, gallai’r ddeddfwriaeth roi sicrwydd, ond gallai cyfreithiau wedi’u drafftio’n wael arwain at ymddiheuriadau arwynebol, a thrwy hynny fychanu eu gwerth.

Roedd cymhwyso’r ddeddfwriaeth yn ehangach ar draws pob achos sifil yn cael cefnogaeth ar y cyfan, gydag atebolrwydd dirprwyol yn bryder amlwg ymhlith ymatebwyr sy’n hawlwyr. Fodd bynnag, roedd cytundeb amlwg i eithriadau ar gyfer achosion difenwi ac ymchwiliadau cyhoeddus, gyda pheth dadlau o hyd a fyddai achosion difenwi yn dal i elwa ar gynnwys ymddiheuriadau. Credid fod canllawiau clir yn hanfodol i sicrhau nad yw nodau’r ddeddfwriaeth yn cael eu tanseilio.

Roedd cynnwys atebolrwydd dirprwyol yn benodol o fewn y ddeddfwriaeth yn cael ei weld fel elfen allweddol i egluro risgiau cyfreithiol i sefydliadau, yn enwedig mewn achosion o gam-drin plant hanesyddol. Awgrymodd ymatebwyr y byddai hyn yn annog ymddiheuriadau cynharach a mwy ystyrlon gan sefydliadau, yn cefnogi goroeswyr ac yn cyd-fynd ag arferion rhyngwladol. Fodd bynnag, roedd pryderon am yr effaith ar yswiriant yn rhywbeth y byddai’n rhaid ei ystyried wrth ddrafftio deddfwriaeth i osgoi canlyniadau anfwriadol.

Roedd ôl-weithrediaeth yn fater dadleuol gan y byddai dull nad oedd yn ôl-weithredol yn cyd-fynd â sicrwydd cyfreithiol a’r cynsail a geir yn neddfwriaeth yr Alban. Fodd bynnag, roedd rhai’n dadlau o blaid ôl-weithrediaeth i roi sylw i hawliadau a wnaed ers amser maith, yn enwedig gydag achosion o gam-drin hanesyddol. Awgrymodd ymatebwyr fod angen canllawiau clir ar amseriad cymhwyso’r ddeddfwriaeth i gael cydbwysedd rhwng tegwch a’r angen i fynd i’r afael â chamweddau’r gorffennol.

I wella ymwybyddiaeth o’r gyfraith newydd, roedd dull cynhwysfawr yn cael ei argymell, gan gynnwys canllawiau statudol a phrotocol cyn-gweithredu diwygiedig. Awgrymwyd addysg a hyfforddiant ar gyfer cyrff cyhoeddus, yswirwyr, a’r gymuned gyfreithiol, ynghyd ag ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a chydweithredu â chyrff proffesiynol.

Roedd disgwyl y byddai goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth arfaethedig yn amrywio’n ôl ymatebwyr. Er y gallai effeithiau uniongyrchol ar hawlwyr fod yn fychan iawn, gallai diffynyddion ac yswirwyr wynebau costau sy’n gysylltiedig â diwygiadau polisi. Fodd bynnag, gallai’r posibilrwydd o arbed costau drwy lai o ymgyfreitha a chanllawiau cyfreithiol mwy clir gael eu rhoi yn erbyn costau gweithredol uwch wrth iddynt addasu i’r darpariaethau newydd.

Roedd effeithiau’r diwygiadau ar gydraddoldeb yn cael eu gweld fel rhai positif ar y cyfan, yn enwedig i unigolion ag anableddau ac i grwpiau agored i niwed. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglŷn â’r posibilrwydd o ymddiheuriadau ‘tactegol’ a hefyd yr angen am ymgysylltu ehangach â chymunedau wedi’u hymyleiddio, i bwysleisio pwysigrwydd gweithredu gofalus.

**Casgliadau’r Llywodraeth a’r Camau Nesaf**

Roedd llawer o ymatebwyr o’r farn bod Adran 2 o Ddeddf Iawndal 2006 yn ein hatgoffa o heriau gweithredu cyfreithiau ymddiheuro am nad oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud ohoni o ganlyniad i amwysedd cyfreithiol, penderfyniadau strategol, a diffyg ymwybyddiaeth.

Mae’r Llywodraeth wedi dod i’r casgliad bod achos dros ddiwygio’r gyfraith ar ymddiheuro drwy ddeddfwriaeth sylfaenol pan fydd amser Seneddol yn caniatáu.

Byddai hyn yn cynnwys diffiniad o ymddiheuriad a'i gwneud yn amlwg bod atebolrwydd dirprwyol wedi'i gynnwys yn unol ag argymhelliad yr IICSA[1]. Fodd bynnag, ni fyddai deddfwriaeth o'r fath yn gymwys ym mhob math o ymgyfreitha sifil nac anghydfodau rheoleiddiol, gan gynnwys ymchwiliadau cyhoeddus neu achosion difenwi. Hefyd, ni fyddai deddfwriaeth o'r fath yn ôl-weithredol. Mae'r Llywodraeth yn gweld achos dros gynhyrchu canllawiau pellach cyn gynted ag y byddai'r ddeddfwriaeth sylfaenol newydd yn cael ei gweithredu a bydd hefyd yn rhoi ystyriaeth bellach i fesurau cyn-gweithredu posibl.

[1] Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol